# Y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth

**SLC(3)-01-2009(p1) Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Adroddiad y Pwyllgor Is-Ddeddfwriaeth**

## Pa mor briodol yw darpariaethau is-ddeddfwriaeth Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-

### 1. Y Rheolau Sefydlog

1.1 Mae gan y Pwyllgor y pwerau a ganlyn o dan y Rheolau Sefydlog:

Mae Rheol Sefydlog 15.6 (ii) yn datgan y gall y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ystyried 'pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ... sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru' a chyflwyno adroddiadau ar hynny.

Er nad yw'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor i wneud sylwadau am rinweddau'r cynnig y bwriedir ei gyflwyno drwy'r Mesur arfaethedig, mae Rheol Sefydlog 15.6(v) yn datgan y gall y Pwyllgor ystyried 'unrhyw fater deddfwriaethol gyffredinol ei natur sy'n ymwneud â chymhwysedd y Cynulliad neu gymhwysedd Gweinidogion Cymru' a chyflwyno adroddiadau ar hynny.

1.2 Diben yr adroddiad hwn yw bod yn sail i ddadl Cyfnod 1 y Cynulliad ar egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig ac unrhyw gyfnodau deddfwriaethol dilynol.

### 2. Ystyried y Mesur

2.2 Ar 4 Tachwedd 2008, ystyriodd y Pwyllgor 'Fesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) 200-' a phenderfynu rhoi ystyriaeth bellach i'r darpariaethau is-ddeddfwriaeth yn y Mesur arfaethedig. Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y Mesur arfaethedig, gwahoddodd y pwyllgor Dr Brian Gibbons AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i roi tystiolaeth i'r pwyllgor ar 25 Tachwedd 2008.

### 3. Y cefndir

3.1 Cyflwynodd Llywodraeth Cynulliad Cymru y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 22 Medi 2008. Mae Pwyllgor Cyfnod 1 wedi'i sefydlu er mwyn ystyried egwyddorion cyffredinol y Mesur arfaethedig.

3.2 Diben y Mesur yw "gwneud darpariaeth ynglŷn â threfniadau gan awdurdodau lleol ac awdurdodau eraill yng Nghymru i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer eu swyddogaethau; i wneud darpariaeth ar gyfer strategaethau cymunedol; ac at ddibenion cysylltiedig" (y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)). Mae'r Mesur wedi'i seilio ar ddatganiad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, "Rhannu Cyfrifoldeb". Yn ogystal â chryfhau cynllunio cymunedol, y nod yw diwygio'r gyfundrefn gwerth gorau drwy ei disodli â chyfundrefn sy'n well adlewyrchiad o'r dull (anstatudol) presennol a geir yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

### 4. Y prif faterion - y pwerau a'r gweithdrefnau i wneud is-ddeddfwriaeth

4.1 Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys nifer sylweddol o ddarpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys cyfanswm o naw pŵer i wneud gorchmynion, gyda thri ohonynt i ddilyn y weithdrefn negyddol, tri i ddilyn y weithdrefn gadarnhaol ac un i ddilyn y weithdrefn uwch-gadarnhaol. Bydd gorchmynion sy'n cynnwys darpariaethau canlyniadol, trosiannol ac arbed neu orchmynion sy'n diwygio neu'n diddymu Deddfau, Mesurau neu is-ddeddfwriaeth yn dilyn y weithdrefn benodol a ddisgrifir yn adran 51. Nid yw gorchmynion cychwyn yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn. At hynny, mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys pedwar pŵer cyfarwyddo a chwe darpariaeth sy'n cynnwys pwerau i roi canllawiau.

### Pwerau i wneud gorchmynion

### 5. Dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella

5.1 O dan y Mesur arfaethedig, rhoddir pwerau i wneud gorchmynion er mwyn cyflawni dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella. Mae adran 7 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio, hepgor neu ychwanegu at y categorïau o agweddau ar wella a ddisgrifir yn adran 4(2). Mae'r categorïau hyn yn cynnwys: effeithiolrwydd gwasanaethau, ansawdd gwasanaethau, argaeledd gwasanaethau, tegwch, cynaliadwyedd, effeithlonrwydd ac arloesi. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ddiwygio neu hepgor paragraffau eraill.

5.2 Mae'r amcanion ar gyfer gwella yn destun gwelliant drwy orchymyn gan ddilyn y weithdrefn gadarnhaol. Ceir cyfiawnhad dros hyn yn y Memorandwm Esboniadol, gan y gallai gorchymyn a wneir o dan yr adran hon "ail-lunio neu ymestyn ffocws strategol awdurdodau yn ei hanfod" (paragraff 5.4 yn y Memorandwm Esboniadol).

5.3 Roedd y dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor ar y Mesur, yn ogystal â'r Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, yn awgrymu y byddai cynnwys y camau gwella yn y Mesur arfaethedig ei hun (yn adran 4) yn achosi dryswch, ac y byddai'n well eu cynnwys yn y Canllawiau Statudol. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn briodol ac yn bwysig cynnwys y rhain yn y Mesur ei hun gan eu bod yn amcanion sy'n ganolog i'r cynigion ar gyfer gwella.

5.4 Nid yw'r Mesur arfaethedig yn ei gwneud yn ofynnol ymgynghori ynghylch gorchmynion a wneir o dan adran 7. Mewn rhannau eraill o'r Mesur, mae'n ofynnol ymgynghori. Esboniodd y Gweinidog y byddai'n disgwyl gweld trafod helaeth gyda'r partïon perthnasol wrth gynnig newidiadau.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r broses o ddirprwyo pŵer i ddiwygio'r categorïau o agweddau ar wella a nodir yn adran 7(4).

Mae'r Pwyllgor yn fodlon gyda'r defnydd o'r weithdrefn gadarnhaol mewn perthynas ag adran 7.

### Argymhelliad (1)

**Yn unol â dyletswyddau eraill i ymgynghori ynghylch y darpariaethau sydd yn y Mesur, a chan ystyried pwysigrwydd y darpariaethau hyn, mae'r Pwyllgor yn argymell bod gofyniad i ymgynghori ar orchmynion a wneir o dan adran 7 yn cael ei ychwanegu at y Mesur.**

### 6. Dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad:

6.1 Rhoddir y pŵer hwn i wneud gorchmynion o dan adran 8 ac mae'n caniatáu i Weinidogion Cymru ragnodi dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad y gellir eu defnyddio i fesur perfformiad awdurdodau gwella Cymreig. Caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio gan ddilyn y weithdrefn negyddol a'i fwriad yw disodli pŵer cyfatebol yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 (a fyddai'n cael ei diddymu gan y Mesur hwn).

Mae'r Pwyllgor yn fodlon y dylid dirprwyo'r pŵer hwn i Weinidogion Cymru. Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon bod y weithdrefn negyddol yn briodol ar gyfer y pŵer hwn.

### Argymhelliad (2)

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ychwanegu gofyniad i gyhoeddi o dan adran 8(3) er mwyn sicrhau bod modd ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch unrhyw gynigion am gyfnod penodol o amser.**

### 7. Cyhoeddi gwybodaeth am welliannau:

7.1 Mae'r Mesur yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau i baratoi a chyhoeddi gwybodaeth benodol erbyn dyddiadau penodol. Clywodd y Pwyllgor sy'n craffu ar y Mesur dystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a barn y rheini oedd y dylid cael gwared ar bob cyfeiriad at ddyddiadau penodol o'r Mesur ei hun. Yn lle hynny, dylid nodi'r dyddiadau mewn Canllawiau Statudol neu Reoliadau lle gellir eu diwygio'n haws. Mae adran 15 yn galluogi Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, i ddiwygio'r dyddiad sydd wedi'i gynnwys yn y Mesur ei hun, a hynny drwy ddilyn y weithdrefn negyddol.

7.2 Dywedodd y Gweinidog fod hyblygrwydd ar gael gan y gellir diwygio'r dyddiadau drwy Orchymyn gan Weinidog. Fodd bynnag, teimlai'r Gweinidog fod cynnwys y dyddiadau yn y Mesur arfaethedig ei hun yn rhoi awgrym o'r persbectif a'r fframwaith ar gyfer cyhoeddi adroddiadau.

Yn dilyn eglurhad y Gweinidog, roedd y Pwyllgor yn derbyn y dylid cynnwys y dyddiad yn y Mesur ei hun, ac y dylai'r Gweinidog gael y pŵer, drwy'r weithdrefn negyddol, i ddiwygio'r dyddiad hwn.

### 8. Asesu ac archwilio:

8.1 Mae'r Mesur yn gwneud nifer o ddarpariaethau ynghylch archwilio, rheoleiddio ac arolygu awdurdodau lleol, ac ynghylch swyddogaethau'r gwahanol gyrff sy'n cyflawni gwaith o'r fath. Yn benodol, mae'n cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff o'r fath gydlynu eu gweithgareddau yn ardal pob awdurdod lleol a helpu Archwilydd Cyffredinol Cymru i ddod i gasgliadau cyffredinol ynghylch faint y mae awdurdodau lleol wedi gwella a faint mwy y gallant wella. Mae'r Mesur ac adran 16 yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu at y cyrff a restrir a chyrff eraill sy'n gyfrifol am archwilio, rheoleiddio neu arolygu awdurdodau perthnasol a/neu'r gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

8.2 Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y Gweinidog y bydd y pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu cyrff rheoleiddio sy'n ymdrin â swyddogaethau nad ydynt wedi'u datganoli at y rhestr, a'u galluogi hefyd i osod dyletswyddau ar y cyrff hyn. Os bydd swyddogaethau'r cyrff nad ydynt wedi'u datganoli yn ymwneud â materion sy'n rhan o gymhwysedd cyfreithiol y Cynulliad (hynny yw, yn rhan o gwmpas Mater 12.4 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006), esboniodd y Gweinidog y gallai Gweinidogion Cymru sicrhau bod y dyletswyddau dan sylw yn berthnasol i'r cyrff hyn.

Gan fod y ddarpariaeth i ychwanegu cyrff at y rhestr a gosod dyletswyddau'n uniongyrchol ar gyrff archwilio, rheoleiddio ac arolygu penodol yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y ddarpariaeth hon. Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar esboniad y Gweinidog ynghylch cymhwysedd cyfreithiol Gweinidogion Cymru i osod dyletswyddau ar gyrff nad ydynt wedi'u datganoli (gweler hefyd baragraff xx isod).

### Argymhelliad (3)

**Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylid ychwanegu gofyniad i ymgynghori â chyrff yr effeithir arnynt drwy unrhyw orchymyn o dan isadran (3) at adran 16.**

## 9. Addasu deddfiadau a rhoi pwerau newydd

9.1 Mae adran 32 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru addasu neu eithrio deddfiadau sy'n gymwys i awdurdodau gwella Cymreig. Dim ond lle bydd Gweinidogion Cymru "yn fodlon bod deddfiad o'r fath yn atal neu'n rhwystro awdurdod gwella Cymreig rhag cydymffurfio â darpariaethau Rhan 1 o'r Mesur y caniateir i Weinidogion Cymru wneud hynny" (paragraff 5.14 yn y Memorandwm Esboniadol). Mae'r adran hefyd yn cynnwys pŵer i roi i awdurdod gwella Cymreig unrhyw bŵer ychwanegol a ystyrir yn angenrheidiol i hwyluso cydymffurfio â Rhan 1 o'r Mesur. Caiff y pŵer hwn ei ddefnyddio o dan y weithdrefn uwch-gadarnhaol.

9.2 Mae adran 33 yn disgrifio gweithdrefn benodol sy'n gymwys i orchmynion a wneir o dan adran 32. Ni ddylid gosod gorchymyn drafft sy'n cynnwys cynigion o dan adran 32 gerbron y Cynulliad (ar gyfer dadl) oni bai bod drafft sy'n cynnwys y cynigion hynny wedi'i osod eisoes gerbron y Cynulliad am gyfnod o chwe deg diwrnod a bod unrhyw sylwadau a ddaeth i law o fewn y cyfnod hwnnw o wedi cael eu hystyried. Mae'r gyfraith sy'n ymwneud â llywodraeth leol a'i gwasanaethau yn eang a dywedir yn y Memorandwm Esboniadol bod "angen y pwerau hyn i ddelio ag unrhyw beth annisgwyl a fyddai'n rhwystro ac yn atal awdurdodau rhag cyflawni eu dyletswydd hollbwysig o wneud gwelliannau" fel y nodir yn Rhan 1 o'r Mesur (paragraff 5.16 yn y Memorandwm Esboniadol). Gan hynny, mae'r pwerau yn adrannau 32 a 33 yn eang eu cwmpas a gallai gorchymyn a wneir o dan yr adran hon ddiwygio Deddfau a Mesurau. Ar y sail hon, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd cyfiawnhau defnyddio'r weithdrefn uwch-gadarnhaol. Mae pwerau tebyg yn bodoli ar hyn o bryd yn Neddf Llywodraeth Leol 1999 (adrannau 17A ac 17B), a fyddai'n cael ei diddymu a'i disodli gan y Mesur arfaethedig.

Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar y defnydd o'r weithdrefn uwch-gadarnhaol wrth ddefnyddio'r pŵer hwn ac mae'n nodi mai dyma'r tro cyntaf i'r weithdrefn hon gael ei chynnig fel rhan o Fesur Cynulliad. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gweithdrefn debyg ar hyn o bryd yn gymwys i ddarpariaethau cyfatebol yn Neddf Llywodraeth Leol 1999, sef Deddf a fyddai'n cael ei diddymu a'i disodli gan y Mesur arfaethedig.

Yn y gorffennol, mae'r Pwyllgor wedi argymell y defnydd o'r weithdrefn uwch-gadarnhaol mewn perthynas â darpariaethau amrywiol Mesur Arfaethedig ynghylch Gwneud Iawn am Gamweddau'r GIG 2007 (fel y gelwid ef bryd hynny), ond ni chafodd yr argymhelliad ei roi ar waith pan basiwyd y Mesur.

Mae'r Pwyllgor yn cymeradwyo defnyddio'r weithdrefn uwch-gadarnhaol yn yr achos hwn pan fydd y Mesur yn dirprwyo pwerau eang i Weinidogion i ddeddfu drwy reoliadau, ac mae'n hyderu y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried defnyddio'r weithdrefn hon mewn Mesurau yn y dyfodol pan fydd hynny'n briodol.

## 10. Cynllunio cymunedol - partneriaid

10.1 Mae'r Mesur yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus perthnasol i gyfrannu at gynllunio cymunedol ac mae adran 38 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r rhestr hon. Gan y byddai gorchymyn o'r fath yn gosod dyletswydd newydd sylweddol ar gyrff cyhoeddus sydd â swyddogaethau cyhoeddus eu natur, mae'r ddyletswydd hon yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol. Dywedodd y Gweinidog mai un o'r rhesymau dros hyn oedd y byddai mwy na goblygiadau gweinyddol yn unig yn dod yn sgil ychwanegu partner newydd, ac y byddai goblygiadau sylweddol hefyd i'r sefydliad ei hun. Mae defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol yn sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i unrhyw benderfyniad i ddiwygio'r rhestr drwy ychwanegu neu ddileu partneriaid sy'n ymwneud â chynllunio statudol.

10.2 O dan y Mesur, gofynnodd yr Aelodau a allai gorchmynion fod yn gymwys i gyrff nad ydynt wedi'u datganoli ac sydd â diddordeb dilys mewn cynllunio cymunedol. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog fod yr heddlu yn enghraifft o gorff sy'n rhan o gynllunio cymunedol, er nad yw'n gorff datganoledig. Dywedodd cynghorydd cyfreithiol y Gweinidog;

"the legal basis for adding the police authorities and Chief

Constables to section 38 is matter 12.4, which the Assembly Government will be relying on when it makes the proposed Measure in due course. That enables the Welsh Minister to make a Measure that includes provisions, 'imposing requirements in connection with such strategies on other persons with functions of a public nature'. The key here is 'functions of a public nature'. If a body has such functions and satisfies all the other legislative competence rules, such as relating to Wales and so forth, it would be added, because it would fall into that category. We are confident that we have the legislative competence to ensure that those bodies are included."

Mae'r Pwyllgor yn nodi bod modd cymharu'r pŵer hwn â phwerau sydd gan Weinidogion Cymru mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes (ee Deddf yr Iaith Gymraeg) ar gyfer rhoi dyletswyddau i gyrff nad ydynt wedi'u datganoli. Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y pŵer yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol, gan y bydd goblygiadau i unrhyw sefydliad a ychwanegir, ac mae'n fodlon bod hynny'n briodol.

## 11. Diwygiadau canlyniadol etc a darpariaeth drosiannol a darpariaeth arbed

11.1 Mae adran 51 yn rhoi i Weinidogion Cymru bŵer drwy orchymyn i ddiwygio, diddymu neu ddirymu deddfiadau at ddibenion gwneud diwygiadau canlyniadol er mwyn gweithredu'n llawn unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Mesur.

Mae'r gweithdrefnau fel a ganlyn:-

Bydd gorchmynion a wneir o dan adrannau 8, 15 neu 20 yn dilyn y weithdrefn negyddol. Bydd gorchmynion a wneir o dan adrannau 7, 16, neu 38 yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Bydd gorchmynion a wneir o dan adran 51 sy'n cynnwys darpariaethau canlyniadol etc fel arfer yn cael eu gwneud gan ddilyn y weithdrefn negyddol, ac eithrio gorchmynion sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddarpariaeth mewn Deddf neu Fesur; bydd

y gorchmynion hynny'n dilyn y weithdrefn gadarnhaol.

Caiff y gweithdrefnau sydd i'w dilyn eu cyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol gan eu bod yn dilyn y weithdrefn neu'r gweithdrefnau sy'n dderbyniol mewn achosion o'r fath.

11.2 Roedd y Gweinidog yn fodlon ar hyn a dywedodd fod y darpariaethau o dan adran 51 yn rhoi cyfle i roi sylw i unrhyw broblemau ac na fyddai angen cefnu ar y gweithdrefnau sy'n dderbyniol fel rheol.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon bod y pŵer i ddiwygio, diddymu a dirymu deddfiadau yn dderbyniol ac nad oedd angen cefnu ar y gweithdrefnau a fabwysiedir fel rheol.

## 12. Cychwyn

12.1 Ac eithrio'r adrannau a ddaw i rym ar y diwrnod y caiff y Mesur ei gymeradwyo gan ei Mawrhydi yn y Cyngor, daw'r darpariaethau yn y Mesur i rym ar y diwrnod y bydd Gweinidogion Cymru yn ei bennu drwy orchymyn.

Nid oes gweithdrefn yn berthnasol i'r gorchmynion hyn, ac mae hynny'n arferol yn achos gorchmynion cychwyn.

Mae'r Pwyllgor yn derbyn bod y gorchmynion cychwyn yn dilyn y drefn arferol - hynny yw, nad ydynt yn ddarostyngedig i unrhyw weithdrefn Cynulliad.

## 13. Pwerau i wneud rheoliadau: Gweinidogion Cymru - pwerau cyfarwyddo etc

13.1 Dim ond un ddarpariaeth sydd yn y Mesur sy'n rhoi pŵer i wneud rheoliadau.

13.2 Mae adran 30 (isadran 7) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth drwy reoliadau sy'n ymwneud â deddfiad sy'n rhoi swyddogaeth iddynt mewn cysylltiad ag un o swyddogaethau awdurdod gwella Cymreig, yn ogystal â phan fyddant yn credu bod y ddarpariaeth yn angenrheidiol neu'n hwylus at ddibenion gwneud cyfarwyddyd o dan adran 30(6) pan fydd awdurdod yn methu â chydymffurfio â'r Mesur. Mae'r ddarpariaeth hon yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

13.3 Roedd y Gweinidog yn gobeithio na fyddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio'n aml iawn, gan ei fod yn ymwneud â gwasanaethau sy'n methu â chydymffurfio. Fodd bynnag, os na fydd awdurdod lleol yn cyflawni ei agenda ar gyfer gwella, mae'r pŵer yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd. Os bydd awdurdod lleol yn methu â chydymffurfio, esboniodd y Gweinidog y byddai'n bwysig gweithredu'n gyflym ac y byddai'r weithdrefn negyddol yn caniatáu i Weinidogion Cymru ymateb a gwneud rheoliadau'n gynt na thrwy'r weithdrefn gadarnhaol. Byddai hynny'n rhoi'r cyfle i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn ffordd fwy effeithiol er mwyn sicrhau gwelliannau.

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r defnydd o'r weithdrefn negyddol wedi'i gyfiawnhau yn y Memorandwm Esboniadol, ond mae'n fodlon y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth weithredu'n gyflym pan fydd awdurdod yn methu â chydymffurfio. Felly, mae'r Pwyllgor yn teimlo bod y weithdrefn negyddol yn briodol er mwyn caniatáu i'r Llywodraeth dargedu awdurdodau sy'n methu, cyn belled â bod y gofynion a ddisgrifir yn adran 6(a) wedi'u bodloni.

## 14. Ymgynghori

14.1 Mae'r Mesur yn darparu bod gofyn i Weinidogion Cymru gynnal ymgynghoriad cyn defnyddio'u pŵer i wneud gorchmynion o dan adran 8 (dangosyddion perfformiad a safonau perfformiad), adran 31 (pwerau cyfarwyddo: trefniadau cydlafurio), adran 33 (gorchmynion o dan adran 32), adran 38 (ystyr "partneriaid cynllunio cymunedol") ac adran 48 (canllawiau). Teimlai'r Gweinidog fod y cydbwysedd o ran ymgynghori yn gywir, ond awgrymodd y byddai'r Llywodraeth yn ystyried y mater pe bai'r Pwyllgor am weld rhagor o ddarpariaethau o ran ymgynghori.